


# TWRISTIAETH GYNALIADWY CYMRU

# PECYN ADNODDAU YNNI

Busnes Cymru | Business Wales

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

## PAM FOD EFFEITHIOLRWYDD YNNI'N BWYSIG

Drwy'r sector arlwyo'n unig, mae busnesau'r DU yn gwario mwy na £1.3 biliwn ar gostau ynni blynyddol. Ond beth sy'n costio gymaint a beth allwn ei wneud i'w leihau? I leihau eich defnydd o ynni a gwneud arbedion ariannol, bydd angen i chi wybod faint o ynni yr ydych yn ei ddefnyddio, ac yn fwy penodol, ble'r ydych yn ei ddefnyddio.



### SIARAD Â'CH TÎM

Peidiwch fyth ag anwybyddu pwysigrwydd cyfarfodydd briffio tîm rheolaidd gan ei bod y hawdd iawn gadael i bethau lithro. Bydd cynnwys effeithlonrwydd ynni fel eitem gyffredin ar yr agenda o gymorth i ymgorffori newidiadau arferol ac annog rhannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd.

- Cyflwyno adolygiad gorfodol ar ddefnydd o ynni
- Creu tasgau adrodd dyddiol i staff - yn cynnwys gwresogi gormodol, drysau a ffenestri diffygiol a gadael golau ac offer heb eu diffodd.

### SIARAD Â'CH YMWELWYR

Bydd hyrwyddo ac arddangos arferion cynaliadwy yn ennill pwyntiau gwyrdd i chi. Yn ogystal â rhoi hwb i'ch arferion chi, anogwch ymwelwyr i weithredu drwy:

- Troi'r gwres i lawr pan mae'r ystafell yn ddigon cynnes
- Agor ffenestri yn hytrach na defnyddio tymherwr aer
- Diffodd y goleuadau ac offer pan mae ymwelwyr yn gadael yr ystafell

# Wyddoch chi fod 4 allan o bob 5* unigolyn yn dweud eu bod nhw'n debygol o ddewis brand gydag agwedd gadarnhaol at gynaliadwyedd amgylcheddol?

## 1 Ymestyn eich Systemau

Systemau gwresogi, awyru ac oeri sy'n defnyddio'r mwyaf o ynni, yn enwedig mewn busnesau sy'n cynnig gwasanaethau llety. Drwy wneud y newidiadau lleiaf un mae'n bosibl arbed hyd at 20% ar gostau gwresogi'n unig.

## 2 Lleihau Drafftiau

Sicrhewch fod ffenestri a drysau allanol ar gau pan mae'r gwres ymlaen, ac anogwch ymwelwyr i wneud yr un fath. Cadwch eich llenni a'ch bleinds ar gau ar ddiwedd y diwrnod yn ystod misoedd y gaeaf i gadw'r gwres dros nos.

## 3 Mae Goleuo'n Allweddol

Mae cadw ffenestri, ffenestri to, a goleuadau'n lân yn allweddol, heb gynnal a chadw rheolaidd gall lefelau golau ostwng 30%. Drwy osod goleuadau effeithlon o ran ynni, byddwch yn arbed arian ac yn lleihau allyriadau carbon.

## 4 Gwella Ffabrig Adeilad

Mae oddeutu dwy ran o dair o wres adeilad lletygarwch arferol yn cael ei golli drwy ffabrig yr adeilad, megis waliau, lloriau a nenfydau. Ystyriwch y gwelliannau y gellid eu gwneud i'ch eiddo pan fyddwch yn uwchraddio systemau.

## 5 Offer Insiwleiddio

Mae offer insiwleiddio yn gam hanfodol i arbed ynni. Drwy insiwleiddio pibelli, waliau, awyru gwres, systemau oeri a pheipiau dŵr byddwch yn lleihau'r defnydd o ynni'n sylweddol.

*Ynni Craffaf

## OPSIYNAU CYLLIDO

Mae nifer o fanciau'n cynnig cyllid busnes gwyrdd gyda gwahanol feini prawf a benthyciadau o wahanol symiau. Mae ein hymgynghorwyr effeithiolrwydd adnoddau ar gael i drafod eich anghenion gyda chi. Dyma restr fer o ble i gael mynediad at gyllid:

- Banc Datblygu Cymru
- Banc Busnes Prydain
- Cronfa BBaCh Gwyrdd HSBC
- NatWest – Benthyciadau Gwyrdd
- Benthyciad Gwyrdd Barclays
- Benthyciad Busnes Cynaliadwy Virgin Money

## PETHAU I CHI EU GWNEUD AR UNWAITH


**1** Trowch y thermostat i lawr. Y gwres delfrydol ar gyfer ystafell yw rhwng 19 a 20 gradd.

**2** Cyfrifwch a monitrwch eich defnydd o ynni i weld sut ac ymhle allwch chi wneud arbedion.

**3** Gwiriwch eich pibellau dŵr i weld a ydynt angen eu hinsiwleiddio!


## OPSIYNAU

Mae bylbiau golau LED yn para 70% yn hirach na bylbiau arferol, felly pam na newidiwch i'r rhain os nad ydych yn eu defnyddio'n barod?



Gall gosod sticeri 'diffoddwch y golau' uwchben switshis golau annog newid mewn ymddygiad; po fwyaf maent yn cael eu gweld, y cyflymaf y bydd arferion eich cwsmeriaid yn newid.

Helpwch i gadw'r gwres i mewn drwy selio drysau a ffenestri sydd ddim yn cael eu defnyddio, i leihau drafftiau ymhellach. Ar gyfer eich ystafelloedd gwesty, gallwch ychwanegu rhimynnau drafft hefyd.



## ADNODDAU AR GAEL

Busnes Cymru - Effeithlonrwydd Ynni

Yr Ymddiriedolaeth Garbon: Arbed ynni heb golli'r teimlad cysurus (Saesneg yn Unig)

Canllaw i olau effeithlon o ran ynni - Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (Saesneg yn Unig)

Yr Ymddiriedolaeth Garbon (Saesneg yn Unig)

Canllawiau cyngor ar ynni a chyfrifiannell costau i fusnesau

**Os hoffech chi gael rhagor o gymorth ar gyflwyno mesurau arbed ynni i'ch busnes, cysylltwch â'n tîm heddiw.**

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales